| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro, Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones – Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Adolygiad.** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi trafod yn y gorffennol yr angen i amlinellu rhaglen gwaith i'r dyfodol a gynlluniwyd ar gyfer y Pwyllgor. Bwriad yr adroddiad hwn yw annog aelodau i ystyried, cyn y cyfarfod, y meysydd gwaith neu oruchwylio y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ei flaenoriaethau arnynt yn ystod blwyddyn sirol 2014/2015.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r rhan fwyaf o Bwyllgorau eraill y Cyngor yn datblygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, ac efallai y bydd yr Aelodau'n cytuno y dylid trafod ac ystyried strategaeth wahanol yn hytrach na chael dull adweithiol i gwynion cod ymddygiad. Mae gwaith rhagweithiol eisoes yn cael ei wneud gan Aelodau, fel bod yn bresennol mewn cyfarfodydd Cynghorau Sir, Dinas, Tref a Chymuned ac efallai y bydd aelodau'n awyddus i gynllunio eu hymagwedd nhw a'r Swyddog Monitro tuag at godi safonau ar draws y Sir mewn modd mwy penodol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Pwyllgor Safonau drafod, ac ystyried, mabwysiadu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Gan fod hwn yn faes y gofynnir yn benodol i'r Aelodau ei ystyried a'i siapio, mae'r manylion yn yr adroddiad felly'n gryno. Elfen allweddol yr adroddiad hwn yw bod y Swyddog Monitro a'i Ddirprwy yn cytuno y dylai cyfeiriad gwaith y Pwyllgor fod yn broses 'dwy ffordd', gyda syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella safonau yn rhagweithiol yn deillio oddi wrth aelodau i'r Swyddog Monitro ac fel arall. Gallai'r meysydd arfer da a drafodwyd yn Fforwm Safonau Gogledd Cymru hefyd fod yn ddefnyddiol wrth siapio'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Er mwyn i'r Pwyllgor hwn ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol, mae rhestr o adroddiadau a chamau gweithredu a gymerwyd gan y Pwyllgor dros y ddwy flynedd ddiwethaf ynghlwm yn Atodiad 1 . Mae Atodiad 2 yn amlinellu rhai meysydd gwaith posibl y gallai'r Pwyllgor ddymuno eu mabwysiadu, er y caiff y

Swyddog Monitro ei arwain gan wybodaeth a phrofiad yr Aelodau o'r hyn sy'n digwydd yn y cymunedau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd ag un o flaenoriaethau'r Cyngor o fod yn nes at ei gymuned.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau ar wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Ni ystyrir fod angen unrhyw ymgynghoriadau, statudol nac anstatudol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r penodiadau'n uniongyrchol.

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi.

**10. Grym i wneud Penderfyniad**

A.112 Deddf Llywodraeth Leol 1972